

Taflen Ffeithiau Llinell Faethu Cymru: Canllaw ar faethu ac anifeiliaid anwes yn y cartref

Rhagymadrodd

Mae anifeiliaid anwes yn rhan o fywyd teuluol ac, felly, yn rhan o faethu. Nid yw bod ag anifeiliaid anwes yn eich rhwystro chi rhag maethu. Mewn gwirionedd, fe allant fod yn ased i deulu maeth. Fodd bynnag, mae pob anifail yn wahanol, ac fe asesir eich anifeiliaid anwes fel rhan o'r broses o ddod yn ofalwr maeth, ac yn wir unrhyw asesiad cyfredol, gan roi ystyriaeth i ffactorau megis eu hanianawd a'u hymddygiad.

Ni chrybwyllir anifeiliaid anwes yn y rheoliadau maethu nac yn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol i Gymru. Felly, dyma rai canllawiau i'w hystyried os oes gennych anifail anwes neu os ydych yn meddwl am gael anifail anwes. Mae hi hefyd yn werth nodi y gallwch gael eich cyfyngu i oedrannau'r plant y gallwch eu maethu, yn dibynnu ar y mathau o anifeiliaid anwes sydd gennych.

Bywyd teuluol, maethu ac anifeiliaid anwes – cael y cydbwysedd yn iawn

Mewn llawer o gartrefi, mae anifeiliaid anwes yn rhan bwysig o fywyd teuluol. Gall anifeiliaid anwes fod yn dda i les plant. Drwy anifeiliaid, fe all plant ddysgu am ofalu ac am dderbyn gofal. Maent yn ffynhonnell cwmnïaeth a serch diamod. Maent yn cynorthwyo cyfathrebu, yn enwedig pan fo plentyn yn ymuno â'r teulu, ac fe allant helpu i ffurfio ymlyniadau, hefyd.

Ar yr un pryd, fe all anifeiliaid anwes fod yn risg i iechyd a diogelwch, pa fodd bynnag annhebygol y gall hynny ymddangos yn gychwynnol. Dylai gofalwyr ddeall hyn ac fe ddylid ei asesu'n ofalus gan y gwasanaeth maethu. Mae'n rhaid i anghenion y plentyn gael blaenoriaeth bob amser – mae ar rai plant ofn rhai anifeiliaid, ac fe gaiff eraill adwaith alergaidd. Yn yr un modd, mae gan rai plant hanes o drais ac ymddygiad ymosodol y gwyddys amdano tuag at anifeiliaid. Fel perchennog anifail anwes, mae arnoch chithau hefyd angen meddwl am sut y byddech yn teimlo ac yn ymateb petai un o'ch anifeiliaid anwes yn cael ei anafu gan blentyn.

Felly, dylid fod yna gydbwysedd sydd wedi'i asesu rhwng y buddion o gael anifail anwes a'r peryglon dichonol. Mae hyn yn amrywio o gartref i gartref, o blentyn i blentyn, o anifail anwes i anifail anwes, ac felly ni ellir cael un polisi unffurf sy'n ymdrin â phopeth. Mae anifeiliaid yn rhan o'r broses baru – mae pob plentyn yn unigolyn.

Y fframwaith cyfreithiol

Nid oes yna ofynion o ran cadw anifeiliaid anwes yn y rheoliadau maethu nac yn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol i Gymru.

Mae rhai anifeiliaid anwes, megis cŵn peryglus neu ymlusgiaid gwenwynig, yn anghydnaws â maethu. Mae Deddf Cŵn Peryglus 1991 yn gwahardd pob cartref rhag cadw rhai mathau o fridiau. Wedi'u gwahardd ar hyn o bryd y mae:

- Daeargi Pit Bull
- Tosa Siapaneaidd
- Dogo Argentino
- Fila Brasileiro.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol y gellir diffinio mwy nag un ci fel cnud o gŵn. Mae rhai gwasanaethau maethu'n nodi dau gi, mae eraill yn nodi tri chi. Efallai bod gan y gwasanaeth bolisi o beidio â derbyn ceisiadau gan gartref a chanddo gnud o gŵn.

Anifeiliaid Anwes yn y Cartref

Dylai anifeiliaid anwes y cartref fod yn rhan o'r broses asesu ar gyfer darpar ofalwyr maeth. Ni ddylai bod ag anifail anwes eich rhwystro rhag bod yn ofalwr maeth. Bydd gwasanaethau maethu'n diweddarau'r asesiad o'r anifail anwes bob blwyddyn fel rhan o'r adolygiad blynyddol o ofalwyr maeth.

Bydd gan eich gwasanaeth maethu ddull penodol o asesu anifeiliaid anwes. Efallai y gwnânt ofyn i arbenigwr ar ymddygiad anifeiliaid gwblhau asesiad arbenigol ar eich ci, cath neu unrhyw anifail anwes arall. Gall hyn swnio'n eithafol, yn enwedig os oes gennych gi neu gath sy'n ddof, er enghraifft. Fodd bynnag, mae o fudd i chi gael yr asesiad hwn wedi'i gofnodi. Mae'n ymwneud â diogelu'r plant yn eich gofal, eich diogelu chi a'r anifail anwes.

Nid oes yna fformat safonol hollgyffredinol. Mae cwrs Y Sgiliau i Faethu™ gan Y Rhwydwaith Maethu yn awgrymu'r meysydd cyffredinol hyn:

- Sut a ble y cedwir yr anifeiliaid?
- A fyddant o fewn cyrraedd plant?
- Beth yw'r risgiau i iechedd a diogelwch?
- Sut y byddai'r gofalwr yn teimlo petai'r plentyn yn anafu'r anifail?
- A yw'r anifail anwes yn defnyddio rhan o'r ardd fel toiled? A yw'r darn hwn wedi'i gau a'i wahanu oddi wrth weddill yr ardd?

Cwestiynau i'w hystyried:

- Sut y byddech yn disgrifio natur eich anifail?
- Sut mae'ch anifail anwes yn adweithio i ddiethriaid?
- A oes yna ddigwyddiad wedi bod yn y gorffennol pan wnaeth eich anifail anwes anafu rhywun?
- Sut mae'n adweithio o gael ei gyffwrdd neu'i fwytho?
- A yw'n ymateb yn gyson mewn sefyllfaoedd gwahanol?
- A yw'n ymateb i orchmynion?
- Os cedwir yr anifail anwes mewn cawell neu danc, a oes modd i blentyn ei agor neu gael ato?
- Hylendid anifeiliaid anwes - ble y caiff yr anifail anwes ei fwydo, ymhle yn y tŷ y caniateir iddo fynd, a gedwir bwyd anifeiliaid anwes ar wahân i fwyd dynol, a ydych yn golchi'ch dwylo ar ôl bwydo'ch anifail anwes?

Plant wedi'u maethu ac anifeiliaid anwes

Plant a phobl ifanc sy'n dod gyntaf. Meddyliwch am sut y gallent deimlo am eich anifail anwes. Fe wyddoch chi fod yr hen gath druan ond eisiau llonydd i gysgu y rhan fwyaf o'r dydd, neu fod eich ci gweithio cu mor gyfeillgar ag y gall neb fod, ond efallai nad yw'r plentyn yn ymwybodol o'r pethau hyn.

Mae'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol i Gymru yn mynnu bod gan bob plentyn, lle y bo'n bosibl, y cyfle i gael cyfnod o gyflwyniad i ofalwr maeth arfaethedig, fel eu bod yn gallu mynegi barn ar sail gwybodaeth am y lleoliad ac ymglyfarwyddo â theulu'r gofalwr. Cofiwch gynnwys eich anifail anwes ym mhroffil eich teulu a'ch polisi gofalu diogelach - maent hwythau'n rhan o'r teulu, hefyd.

Cyn y daw plentyn newydd i fyw gyda chi, dowch i wybod ei farn am anifeiliaid anwes a rhywbeth yn ei hanes am fod yn hoff o anifeiliaid anwes neu fod yn greulon tuag atynt. A oes ganddo/ganddi alergedd i ffwr anifeiliaid anwes?

Dylai'ch gwasanaeth maethu gynnwys yr anifail anwes mewn unrhyw asesu risg sy'n gysylltiedig â'r broses baru.

Dylech hysbysu'ch gwasanaeth maethu os ydych yn bwriadu ychwanegu anifail anwes at yr aelwyd. Argymhellir y dylid gwneud hyn o flaen llaw fel y gall y gwasanaeth asesu risg.

Sut y gall y Rhwydwaith Maethu helpu

Mae'r Rhwydwaith Maethu'n cynnig cyngor, gwybodaeth a chefnogaeth. Mae ein harbenigedd a'n gwybodaeth bob amser yn gyfoes ac ar gael drwy'n llinellau cymorth, ein cyhoeddiadau, ein hyfforddiant a'n gwasanaethau ymgynghori hanfodol i'n haelodau.

Cyngor

Llinell Faethu Cymru

Ffoniwch ni ar 0800 316 7664 rhwng 9.30yb - 12.30yp rhwng dydd Llun a dydd Gwener. Os ffoniwch ar unrhyw adeg arall, gadewch neges, os gwelwch yn dda, ac fe wna rhywun eich ffonio yn ôl cyn gynted â phosibl.

Gallwch anfon e-bost atom neu ysgrifennu atom yn:

Fosterlinewales@fostering.net

Rhwydwaith Maethu Cymru,
1, Pentir Caspian, Stryd Pierhead,
Bae Caerdydd CF10 4DQ.

Cefnogaeth ac adnoddau

Mae ein gwefan yn ffynhonnell hanfodol o wybodaeth, tra bod ein cymuned ar-lein yn dod â gofalwyr maeth ynghyd i gael cefnogaeth a chynghorion gan gymheiriaid. Gallwch fewngofnodi i rannu'ch profiad ac i gael cyngor gan ofalwyr maeth eraill. Mae ein cymuned ar-lein yn fan diogel a sicr i drafod materion gofal maeth. thefosteringnetwork.org.uk

Hyfforddiant a gwasanaeth ymgynghori

Lle bynnag rydych yn eich gyrfa faethu, fel gofalwr maeth, gweithiwr cymdeithasol neu reolwr, mae gan Y Rhwydwaith Maethu ystod o hyfforddiant wedi'i gynllunio i ddiwallu'ch anghenion datblygu chi. I gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â'n rheolwr dysgu a datblygu, Sarah Mobedji, yn sarah.mobedji@fostering.net.

Ynglŷn â'r Rhwydwaith Maethu

Y Rhwydwaith Maethu yw prif elusen faethu'r Deyrnas Unedig, ac fe ddaw â phawb ynghyd sy'n gysylltiedig â bywydau plant wedi'u maethu i wneud gofal maeth y gorau un y gall fod.

Cysylltu â Ni

I ganfod mwy o wybodaeth am ein gwaith yng Nghymru, cysylltwch, os gwelwch yn dda, â:
Rhwydwaith Maethu Cymru,
1, Pentir Caspian, Stryd Pierhead,
Bae Caerdydd CF10 4DQ.

Ffôn: 029 2044 0940

E-bost: wales@fostering.net

Gwefan: thefosteringnetwork.org.uk



/thefosteringnetwork



@fosteringnet

© Y Rhwydwaith Maethu 2017